

# Cyngor Dinas Casnewydd Gwasanaethau Addysg

## Fforwm Derbyniadau Ysgol

### Cofnodion y Cyfarfod



**Dyddiad:** 16 Mawrth 2020

Yn bresennol: Yr Esgobaeth Gatholig (Yn y Gadair)  
Rheolwr Gwasanaeth CDC  
Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau CDC  
CDC – Aelod Etholedig  
CDC – Aelod Etholedig  
CDC – Aelod Etholedig  
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol Uwchradd  
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS))  
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (EY)  
Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth (dim pleidlais)  
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir  
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir  
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr  
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr  
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr  
Cynrychiolydd Ysgolion GaG

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau: Rheolwr AAA  
Cynrychiolydd Ysgolion GaG  
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal (dim pleidlais)  
Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog

### **1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd AR y cyfarfod a chroesawodd y rheiny oedd yno. Nodwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

### **2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn rhai gwir a chywir.

### **3. Materion yn Codi**

Cynrychiolaeth o'r Esgobaeth Anglicanaidd – hysbysodd AR y Fforwm, oherwydd y pandemig, fod recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr newydd wedi'i wthio'n ôl tan ddiwedd y flwyddyn academiaidd hon.

Croesawyd VC fel cynrychiolydd newydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir.

#### 4. Rownd Dderbyn Flynyddol

Rhoddodd JL grynodedb o'r adroddiad yn cadarnhau'r sefyllfa ar gyfer mis Medi 2021.

- Mae rowndiau hwyr y feithrinfa yn parhau;
- Disgwylir i benderfyniadau Derbynfa 2021 gael eu cyhoeddi ar 16 Ebrill 2021;
- Derbyniwyd dros 1700 o geisiadau uwchradd yn ystod y cylch amser, a chyflwynwyd 86% ohonynt ar-lein;
- Bodlonwyd 94% o'r dewisiadau cyntaf, ac roedd 80% ohonynt ar gyfer yr ysgol ddalgylch;
- Crëwyd capasiti ychwanegol yn Ysgolion Bassaleg a John Frost, ond gwrthodwyd 1 yn y dalgylch yn Bassaleg;
- Mae apeliadau'n cael eu derbyn ar hyn o bryd gyda dyddiad cau o 29 Mawrth - mae gwrandawiadau wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai;
- Nid oes gan 47 o drigolion Casnewydd gynnig, ond mae 159 o leoedd ar gael o hyd.

Adroddodd PB fod Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseff wedi derbyn 320 o geisiadau. Er gwaethaf y ffaith bod y dalgylch wedi'i newid, gwrthodwyd 56 o geisiadau dalgylch. Diolchodd PB i'r Tîm Derbyn i Ysgolion am eu cymorth.

Mynegodd PB y byddai'n ceisio cysylltu ag AAA y tu allan i'r cyfarfod hwn o ran cydgysylltu'n well ar benderfyniadau AAA. Esboniodd JL fod cod derbyn i ysgolion Llywodraeth Cymru a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yn gofyn am bethau gwahanol, eleni gweithredodd fel cynllun peilot i roi cynnig ar broses wahanol ac mae'n obeithiol y bydd y materion yn cael eu datrys ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Awgrymodd AR y dylid monitro'r sefyllfa a chodi yn fforwm Derbyn Cymru gyfan, er mwyn ymchwilio i arfer gorau.

Holodd y Cynghorydd AY nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg sydd ar ôl yn y system. Cadarnhaodd JL mai dyma'r sefyllfa bresennol, ond mae'n agored i newid wrth i amgylchiadau newid. Yn gyffredinol, dyma fydd y sefyllfa wrth symud ymlaen ar gyfer blwyddyn 7 ar draws y flwyddyn academaidd. Mae gwarged bach wedi'i ganoli yn nwyrain y ddinas, ond dyma fu'r sefyllfa dros y 2 flynedd academaidd ddiwethaf.

Holodd y Cynghorydd AY am sefyllfa twf – cadarnhaodd DW fod y Cyngor yn ymwybodol o'r boblogaeth gynyddol ac mae'n gwneud darpariaeth ychwanegol yn Ysgol Bassaleg. Daw hyn i rym o fis Medi 2023. Mae'r grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol hefyd yn monitro'r sefyllfa yn Ysgol John Frost yn agos. Os bydd rhywun yn symud i'r ardal a bod yr ysgol a ffefrir yn llawn, byddant yn cael cynnig lle mewn ysgol arall ac yn cael eu rhoi ar restr aros i'w hystyried rhag ofn y bydd unrhyw un yn gadael.

Gofynnodd LPi o ble mae'r 19 disgybl arall heb gynnig – cadarnhaodd JL eu bod yn dod o gymysgedd o ardaloedd Trefynwy, Torfaen a Chaerffili.

Holodd y Cynghorydd LL am wrthodiad Bassaleg – cadarnhaodd JL fod y dyraniad diwethaf wedi dod i lawr i'r meini prawf pellter ac ni dderbyniwyd unrhyw blant y tu allan i'r dalgylch.

Gofynnodd FR a fyddai unrhyw "ddosbarthiadau swigod" yn cael eu gweithredu o fewn clwstwr Bassaleg ar gyfer Derbynfa 2021. Esboniodd JL nad oedd unrhyw arwydd cynnar ar hyn o bryd, ond mae'r tîm yn mynd drwy'r broses ddilysu ar hyn o bryd ac yn cydweithio â'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr. Cadarnhaodd DW y bydd y sefyllfa'n cael ei hystyried eto yn fuan cyn i'r cynigion fynd allan ac os bydd angen, bydd y sgysiau hynny'n digwydd yn fuan.

## 5. Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn

Adroddodd JL ar sefyllfa Tymor yr Hydref 2020:

- Derbyniwyd 643 o geisiadau yn ystod y flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn ychydig yn uwch o'i gymharu â 2019 ac mae'n dangos mai ychydig iawn o newid a fu yn nifer y ceisiadau er gwaethaf y pandemig;
- Derbyniwyd 44% o ganlyniad i symud i mewn i'r ddinas;
- Nid yw'r sefyllfa o ran lleoedd gwag wedi newid ers peth amser. Yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o'r lleoedd sydd ar gael wedi'u lleoli yn y dwyrain ac mae llawer llai o leoedd cyfrwng Saesneg ar gael o'u cymharu â lleoedd cyfrwng Cymraeg

Holodd y Cynghorydd AY a yw'r holl apeliadau sy'n ymwneud â thymor yr Hydref bellach wedi'u clywed ac a oedd y data sydd ar gael yn cael ei ystyried yn y grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol. Cadarnhaodd JL fod yr holl wrandawiadau sy'n ymwneud â thymor yr Hydref wedi'u cynnal ac mae'r data lleoedd sydd ar gael yn eitem reolaidd ar yr agenda.

Hysbysodd JL ac EK y fforwm fod y Cyngor yn rhagweld cynnydd mewn ceisiadau yn ystod y flwyddyn gan wladolion Hong Kong. Hyd yma, nid ydym wedi derbyn llawer, ond cadarnhaodd EK y byddai'n darparu mwy o wybodaeth am hyn pan fydd ar gael.

## 6. Adroddiad Monitro a Gwerthuso ALI Casnewydd

Esboniodd JL fod yr adroddiad Monitro a Gwerthuso yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli bob tymor, i gefnogi'r gwaith o fonitro swyddogaethau tîm a pharatoi os bydd unrhyw arolygiadau gan Estyn. Mae hefyd yn cynnwys hunanarfarnu ar y diwedd sydd wedi'i raddio'n rhagorol ar hyn o bryd.

Un o ddyletswyddau allweddol y Fforwm Derbyn i Ysgolion yw monitro effeithiolrwydd y Polisi Derbyn i Ysgolion ac felly mae copi o'r adroddiad hwn wedi'i ddsbarthu i'r holl aelodau er gwybodaeth a sylwadau.

Gofynnodd y Cynghorydd AY am gynnwys y twf disgwylidig mewn tai. Esboniodd DW fod adroddiad Monitro a Gwerthuso ar wahân ynghylch cynllunio lleoedd ysgol y gellid ei rannu ar gais. Er eu bod yn gysylltiedig, mae'r 2 faes yn brosesau cwbl ar wahân.

Holodd AR gynnwys yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn yr adroddiad. Esboniodd JL fod cydgysylltu anffurfiol yn digwydd ledled y ddinas, ond diben yr adroddiad hwn yw monitro'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r dyraniadau y mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn gyfrifol amdanynt, h.y. ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn unig.

## 7. Polisi Mynediad Teg

Dosbarthwyd copi o'r Polisi Mynediad Teg drafft i'r holl aelodau i'w ystyried a rhoi sylwadau arnynt.

Esboniodd KD y bydd y Panel Mynediad Teg yn rhan o'r cyfarfodydd Symud a Reolir a gynhelir yn wythnosol ac yn cael ei dreialu ar gyfer ysgolion uwchradd yn y lle cyntaf.

Tynnodd KD sylw at y rhestr o amgylchiadau, y mae disgyblion yn perthyn iddo, ond eglurodd nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Nododd EK fod rhai o'r grwpiau adnabod yn eithaf penodol, fodd bynnag, nid yw rhai dysgwyr ym mhob grŵp bob amser yn cael eu hystyried yn agored i niwed neu lle maent, gallai fod am resymau'n ymwneud ag iaith yn hytrach nag unrhyw beth arall. Esboniodd KD y byddai pob cais yn cael ei ystyried fesul achos a dim ond ar gyfer ystyriaeth ychwanegol lle bo angen.

Nododd GB bwysigrwydd i gynlluniau pontio gael eu nodi'n glir. Esboniodd KD fod y ffurflen Newid Lleoliad wedi'i diwygio i gasglu'r wybodaeth ychwanegol honno. Mae'r broses hon yn ymwneud mwy â'r cam derbyn yn ystod y flwyddyn a sicrhau bod y plentyn yn cael ei leoli'n gywir. Defnyddir y Panel Symud a Reolir i edrych ar y pecynnau cymorth hynny.

Holodd PB gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn y broses. Esboniodd JL nad yw'r polisi hwn yn rhan o'r protocol Symud a Reolir, gan fod yr atgyfeiriadau hynny'n cael eu cyflwyno gan ysgolion. Mae hwn yn estyniad o'r Polisi Derbyn i Ysgolion, y bydd atgyfeiriadau'n cael eu cyflwyno ar ei gyfer gan y Cyngor lle mae plentyn yn disgyn rhwng y bylchau oherwydd eu hamgylchiadau.

Cadarnhaodd DW fod ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn cael eu hannog i ymuno, ond byddai angen iddynt gyfeirio yn eu polisi derbyn eu hunain.

Nododd y Cynghorydd AY fod yr adroddiad wedi'i groesawu ac mae'r egwyddorion yn dda iawn gan eu bod yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn ac yn cefnogi ysgolion.

Gofynnodd y Cynghorydd AY hefyd am eglurder ynghylch geiriad "digartref". Cadarnhaodd KD y byddai hyn yn cael ei ddiwygio i sicrhau cynrychiolaeth deg a chywir.

## **8. Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn 2022**

Cadarnhaodd JL nad oedd yr ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn 2022 wedi'i gyhoeddi heb unrhyw newidiadau a gynigiwyd.

Gwneir un gwelliant bach mewn perthynas â'r geiriad o amgylch pellteroedd o'r cartref i'r ysgol a'r dull a ddefnyddir, yn dilyn newid diweddar yn y feddalwedd. Yn gynwysedig mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd, ond nid oedd yr un ohonynt wedi arwain at newid polisi.

Y cynnig yw mynd â'r trefniadau hyn i'r Aelod Cabinet nesaf i'w benderfynu.

Gofynnodd PB am hysbysiad ar y geiriad pellter.

## **9. Rhaglen ad-drefnu**

Dosbarthwyd copi o adroddiad y Rhaglen Ad-drefnu cyn y cyfarfod. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

## **10. Unrhyw fater arall**

Rhoddodd EK rywfaint o esboniad pellach ynghylch y cynnydd a ragwelir mewn ceisiadau o Hong Kong.

Sefydlwyd Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol i gefnogi plant sy'n ceisio lloches ac i annog Awdurdodau Lleol i wirfoddoli i gefnogi'r rhai ar eu pen eu hunain. Mae trafodaethau'n parhau, ond deallir y bydd y rhan fwyaf o'r plant sy'n dod o Hong Kong yn oedran uwchradd ac mae Casnewydd a Chaerdydd yn disgwyl rhwng 25 a 30 o blant.

Fodd bynnag, nid yw'r trosglwyddiadau hyn yn cael eu cydgysylltu drwy'r Prosiect Adleoli Agored i Niwed, mae grŵp ar wahân wedi'i sefydlu i edrych ar y sefyllfa o lefel strategol a gweithredol. Mae hyn ar y camau cynnar ar hyn o bryd a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu pan fydd ar gael.

Holodd LPI pa mor aml y mae'r nifer hwn yn cael ei dderbyn ac a fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'w cefnogi. Cadarnhaodd EK y bydd Casnewydd yn disgwyl y bydd yn cael ei dderbyn yn flynyddol, ond bydd arian ychwanegol yn cael ei ddarparu fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.

## **11. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol**

Disgwylir y cyfarfod nesaf ar 22 Mehefin 2021 a chytunwyd ar gyfarfod tymor yr Hydref ar gyfer 16 Tachwedd 2021.